Cofnodion cyfarfod electronig **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR**
a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2014

Nodiadau	**Gweithredu**
YN BRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd, (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Peter Morgan, Trysorydd; Tony Atkins; Keshav Singhal; Carole-Anne Davies; Miriam Griffiths; Robert Pickard; Victoria Provis; Gareth Williams, Gareth Wyn Jones, Glenda Jones, Christina Macaulay; Mark Richards, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu; ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.	
YMDDIHEURIADAU: Derbyniwyd ymddiheuriad gan David Vokes.	
1 PENODI AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR ARCHWILIO 1.1 Adroddwyd: Yn dilyn penodiad Laurie Pavelin yn Ymddiriedolwr ac Ymddiriedolwr Etholedig, a phenodiad Eurfyl ap Gwilym wedyn yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, adroddwyd bod lle gwag ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio. Dan adran 2.2.1 o Gylch Gwaith y Pwyllgor Archwilio, gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r penodiadau hyn. Cynigiodd y Llywydd, y Trysorydd a'r Trysorydd Etholedig bod Rheon Tomos yn cael ei benodi. 1.2 Er mwyn i Rheon Tomos gyfrannu at gyfarfod nesa'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Tachwedd, galwyd cyfarfod electronig i drafod y penodiad. 1.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chafodd penodiad Rheon Tomos yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio ei gymeradwyo'n unfrydol.	